# £4.1miliwn i achub treftadaeth ryfeddol sydd mewn perygl yng Nghymru

## Cymorth achubiaeth gan ein Cronfa Ymateb i COVID-19 ar gyfer adeiladau a effeithiwyd gan y pandemig.

Mae Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych wedi derbyn dyfarniad o £2.2m i ddiogelu a chadw’r ased treftadaeth o bwys cenedlaethol hwn ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.



*1 Castell Gwrych*

Roedd prif adeilad y castell rhestredig Gradd I o'r 19eg ganrif mewn perygl o gwympo i lawr. Bydd ein hariannu'n cefnogi gwaith atgyweirio brys gan gynnwys adfer toeon a lloriau'r prif adeilad, gwaith y bu'n rhaid ei atal yn ystod y pandemig.

Adeiladwyd Castell Gwrych yn yr arddull Gothig yn y 1800au. Estynnwyd y safle ym1845 ac ychwanegwyd capel yn y 1870au. Plannwyd llawer o’r gerddi yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys y coed Pos Mwnci ac Ywen sy'n dal i fodoli heddiw. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, atafaelwyd y castell fel cartref ar gyfer tua 200 o blant Iddewig a oedd yn ceisio diogelwch.

Mae'r safle wedi'i nodi gan Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol llywodraeth Cymru) fel ased diwylliannol heb ei gyffelyb. Ystyrir bod y grisiau marmor Eidalaidd trawiadol y tu mewn yn un o Saith Rhyfeddod Cymru. Bu cryn sylw cyhoeddus i'r castell wrth iddo fynd yn gartref i raglen 'I'm A Celebrity Get Me Out Of Here' ITV yn 2020 a 2021.

Dywedodd Dr Mark Baker, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych: "Gyda'r dyfarniad arian sylweddol hwn, gallwn wrthdroi'r sefyllfa argyfyngus y mae'r safle ynddi ar hyn o bryd, gan ganiatáu i Gastell Gwrych ddychwelyd i'w hen ogoniant a chynnig y profiad gorau i'n hymwelwyr pan ddônt i ddysgu am y dreftadaeth hynod ddiddorol sydd ganddo i'w rhannu."

## Achub tirwedd ddiwylliannol Cymru

Mae arian hefyd wedi'i ddyfarnu i:

**Lyfrgell Gladstone** (£777,246): Mae'r llyfrgell restredig Gradd I ym Mhenarlâg wedi'i chydnabod fel un o lyfrgelloedd ymchwil pwysicaf Cymru ac yn gartref i gasgliadau o arwyddocâd rhyngwladol. Bydd ein hariannu'n cefnogi gwaith atgyweirio mawr ar y porth mynediad, y to, nenfwd yr Ystafell Ddarllen a rhai ffenestri allanol, a gafodd eu gohirio neu eu canslo yn ystod y pandemig.

**Friends of Friendless Churches** (£769,309): bydd eglwysi canoloesol segur, St Lawrence yn Gumfreston, Sir Benfro a St James's yn Llangua, Sir Fynwy, yn cael eu hachub rhag adfail. Mae'n bosib bod Eglwys St Lawrence yn gartref i'r gloch hynaf o'r oes cyn y Diwygiad Protestannaidd yn Sir Benfro, ac mae gan Eglwys St James do wagen ganoloesol bendigedig. Bu i'r eglwysi - sy'n dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif - golli incwm a mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn ystod y cyfnod clo.

**Cwrt Insole** (£328,938): adeiladwyd Cwrt Insole ym 1855 gan James Harvey Insole, aelod o un o'r teuluoedd a sefydlodd y diwydiant glo yng Nghwm Rhondda, ac mae'n cael ei gydnabod fel rhan bwysig o dirwedd ddiwylliannol Caerdydd. Bydd ein hariannu'n cefnogi gwaith atgyweirio hanfodol ar y plasty a'r stablau rhestredig Gradd II.



*2 Golygfa o'r awyr o Gwrt Insole*

Dywedodd Dr Simon Thurley CBE, Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol: “Rydym yn hynod o falch o fod wedi darparu achubiaeth i rai o safleoedd ac asedau treftadaeth anhygoel Cymru drwy'r Gronfa Ymateb COVID-19, gan eu helpu i liniaru effeithiau’r pandemig.”

## Y Gronfa Ymateb COVID-19

Ffurfiwyd y gronfa £40m gyda £20m gan CGDG ac £20m pellach gan Gronfa Asedau Diwylliannol llywodraeth y DU. Mae ceisiadau i’r gronfa wedi dod i ben erbyn hyn.

## Cael yr wybodaeth ddiweddaraf

I glywed y newyddion diweddaraf am ariannu gan CGDG:

- dilynwch ni ar LinkedIn ac Instagram
- cofrestrwch ar gyfer ein rhestr bostio